# Taith Fasnach Bwyd Môr, Hong Kong

3 – 7 Medi 2018

## Y Sectorau Allweddol

- Bwyd a Diod

Mynd â Chymru i'r Byd



## Y Cynnig

**Mae Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Prosiect Datblygu Marchnadoedd Bwyd Môr a ariennir gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop drwy'r Undeb Ewropeaidd a'r Llywodraeth, yn cynnig Taith Fasnach i Hong Kong ym mis Medi 2018.**

Mae lle i 10 ar y daith fasnach hon a fydd yn cael ei chynnal yr un pryd â Seafood Expo Asia yn Wanchai, Hong Kong rhwng 4 a 6 Medi.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd**
**European Structural and Investment Funds**

## Pam Seafood Expo Asia 2018?

Mae'r prynwyr a'r gwerthwyr bwyd môr gorau yn cwrdd yn Seafood Expo Asia ac yn trafod busnes yn y farchnad sy'n ehangu o hyd yn Asia. Ewch i'r digwyddiad a chewch wybod am yr holl gyflenwyr a'r cynhyrchion newydd sydd eu hangen arnoch i dyfu eich busnes, gan gynnwys rhywogaethau sy'n cael eu hystyried yn fwyd o'r radd flaenaf.

## Amserlen

Mae'r amserlen arfaethedig yn cynnwys ymweld â manwerthwyr a chyfanwerthwyr, diwrnod yn Seafood Expo Asia, cwrdd â staff y Llysgenhadaeth a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a fydd yn darparu gwybodaeth am y gofynion o ran allforio i Asia, a chyflwyniadau gan asiantwyr o fewn y farchnad.

Bydd eich llety, costau teithio a'ch presenoldeb yn y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yn cael eu hariannu gan Brosiect Datblygu Marchnadoedd Bwyd Môr a Llywodraeth Cymru. Uchafswm o 2 berson ar gyfer pob busnes.

Bydd y diwydiant ehangach a rhanddeiliaid yng Nghymru yn cael gweld adroddiad ar yr ymweliad maes o law.

Bydd yn ofynnol i'r unigolion sy'n mynd ar y Daith Fasnach dalu am fwyd a diod eu hunain ac am unrhyw weithgareddau ychwanegol a wneir nad ydynt yn rhan o'r brif amserlen.

## Datganiad o Ddiddordeb

Os oes gennych ddiddordeb, llenwch y Datganiad o Ddiddordeb drosodd.

Cewch eich derbyn yn ôl disgresiwn a gallai'r broses fod yn un gystadleuol gan ddibynnu ar nifer yr ymgeiswyr.

Y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y Datganiadau o Ddiddordeb yw **dydd Gwener 6 Gorffennaf 2018** a dylid eu hanfon at caroline.dawson@menterabusnes.co.uk

WG35334
© Hawlfraint y Goron 2018
OGL

## **Datganiad o Ddiddordeb:** Taith Fasnach Bwyd Môr i Hong Kong, 3 – 7 Medi 2018

Enw'r Cwmni:

Cyfeiriad y Cwmni:

Cod Post y Cwmni:

Gwefan:

E-bost:

Rhif ffôn:

Rhif cofrestru'r cwmni:

Cynrychiolydd/cynrychiolwyr arfaethedig y Cwmni:

E-bost:

Rhif ffôn:

Ystod y Cynhyrchion:

Ydych chi'n allforio ar hyn o bryd? Os felly, i ble? Rhowch fanylion.

Uchelgais ar gyfer twf a/neu farchnadoedd yn y dyfodol:

Unrhyw wybodaeth bellach i ategu eich Datganiad o Ddiddordeb: